**CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH**

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Brithdir
Nos Fawrth, Tachwedd 18, 2025 am 7:30 o'r gloch.

**AGENDA**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**1. Croeso'r Cadeirydd**

**2. Ymddiheuriadau:**

**3. Datgan diddordeb.**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 21, 2025**

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 21, 2025**

Eitem 5. Eitem 5. Eitem 6.b.
Anfonwyd (22/10/2025) llythyr i'r aelodau yn atgoffa nhw:
Hysbysfwrdd yn Brithdir - ei osod ar wal y Neuadd wrth ymyl y diffibriliwr
Hysbysfwrdd yn Rhydymain - ei osod yn lle yr un bresennol. Cael gwared â'r hen hysbysfwrdd.
Mainc - ei osod yn Top Torrent
Mainc - ei osod rhwng bin a phostyn 'hydrant' ar dir Hengaer.
Mainc - ei osod wrth Neuadd Llanfachreth
Mainc - ei osod wrth Neuadd Rhydymain.
Bydd angen gosod sticer logo SPF a Chyngor Gwynedd ar y dodrefn.

Anfonwyd (23/10/2025) llythyr Panel Warehouse yn rhoi gwybodaeth sut i roi yr hysbysfwrdd yn y ddaear.

Derbyniwyd neges (24/10/2025) gan Rhun yn rhoi gwybod bod yr hysbysfyrddau wedi cyrraedd.
Anfonwyd y neges i'r aelodau gan ychwanegu mae £728.54 yn weddill i wario os mae angen.

Llythyr (21/10/2025) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd £3,278.00 yn ein cyfrif o fewn 3 diwrnod tuag at y grant am yr hysbysfyrddau a meinciau. Nid yw'r swm yn cynwys TAW; y ni fydd yn rhoi claim i HM Revenue and Customs am y TAW sef £655.64. Roedd ein cais yn gofyn am £3,933.86 am y dodrefn.
Cafwyd gwybod (13/10/2025) gan Swyddog Adfywio Trefi ynglŷn â grant 'Gwynedd Ni' bydd £728.54 yn weddill i wario.

Anfonwyd llythyr (3/11/2025) i'r aelodau yn dweud bod y 4 mainc wedi cyrraedd Wynnstay ac iddynt eu nôl a'u gosod yn eu lle.

Llythyr (1/11/2025) oddi wrth Robin i'r aelodau yn rhoi gwybod bod hysbysfwrdd wedi cael ei roi yn ei le yn Rhydymain. Gyda'r llythyr roedd Llun yn dangos yr hysbysfwrdd. Cafodd yr hen hysbysfwrdd ei symud o'r safle.

Llythyr a llun (7/11/2025) oddi wrth Robin i'r aelodau yn dangos mainc yn ei le wrth Neuadd Rhydymain.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/10/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud yn Brithdir a Llanfachreth gan Tim Tacluso Ni yn 3 – 7/11/2025. Hefyd bydd gwaith atgyweirio canllaw Pont Tyddyn Mawr, newid tua 20 o fyrddau dec a thorri 60m o lystyfiant sydd ar Lwybr 4 a Llwybr Ceffyl 13 yn Abergeirw.

b. Llythyr (24/10/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd 21/10/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

c. Llythyr (30/10/2025) oddi wrth Mr Dyfrig Siencyn yn rhoi gwybod mae ganddo ddogfennau hanesyddol y Cyngor sy'n mynd yn ôl i 1894 ac yn awgrymu y dylid trosglwyddo'r holl ddogfennau i Archifydd yn Nolgellau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

O ymateb yr aelodau dylid y dogfennau cael eu rhoi i'r Archifydd. Rhoddwyd gwybod i Dyfrig (31/10/2025) iddo fynd a'r dogfennau i'r Archifydd. Roedd Dyfrig yn glerc ar Gyngor Cymuned Llanfachreth rhwng 1975 – 1979.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**8. Materion Ariannol**

a. Bil (23/10/2025) am £2,040.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd am agor ffos a gosod colofn golau stryd newydd ar gyfer Neuadd Bentref Rhydymain.

b. Llythyr (30/10/2025) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/10/2025: £161.53.
Balans yn y banc ar 29/10/2025: £14,031.32

**9. Archwilio**

**10. Materion yr Aelodau**

a. Cais (10/11/2025) gan Llion i ni wneud ymoliadau gydag Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw'r diweddaraf dymuniad y Cyngor Cymuned i Gyngor Gwynedd drosglwyddo'r cae chwarae gyferbyn a'r ysgol i'r cyngor cymuned. Mae'r mater yma wedi mynd ymlaen ers 2019.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Mae Gerallt yn gwneud ymchwil lleol ynglŷn â Signal Ffôn 5G yn Llanfachreth ac mae Delyth wedi bod mewn cysylltiad â Bwrdd Uchelgais Cymru ynglŷn â’r mater.

b. Dogfen gan y Parc ynglŷn cyflog y Clerc.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc